Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 28-09)

Dyddiad: 25 Tachwedd 2009
Amser: 9.30am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 25 Tachwedd 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC, Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike German AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC352 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 2 Rhagfyr 2009

SLC353 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 7 Rhagfyr 2009

Er nad oedd y Pwyllgor wedi codi unrhyw bwyntiau mewn cysylltiad â'r rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 15.2, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i nifer o faterion o dan Reol Sefydlog 15.3(ii): materion y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig iddynt gan eu bod yn "codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad." Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i dynnu ei sylw at yr adroddiad ac yn gofyn iddi ystyried ymhellach y materion y cyfeirir atynt.

Mae adroddiad y Pwyllgor ar yr Offeryn Statudol hwn yn amgaeedig yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

Eitemau 3, 4 a 5 ar yr Agenda – Rheoliadau sy'n deillio o Fesurau, Monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth –

Ymateb y Cwnsler Cyffredinol i lythyr y Cadeirydd ac Ystyriaeth o Adroddiad Drafft y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37 (vi) a (vii) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod cyngor cyfreithiol a chyngor Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar Reoliadau sy'n deillio o Fesurau, a chanlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a chynnwys ac argymhellion yr adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru).

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

25 Tachwedd 2009

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-28-09)

SLC353

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("Rheoliadau 1989"). Mae'r Rheoliadau'n tynnu Guernsey a'i beilïaeth a Jersey i ffwrdd o Atodlen 2 i Reoliadau 1989. Ni fydd ymwelwyr o'r tiriogaethau hyn i Gymru bellach yn esempt o dan reoliadau 4 a 5 o Reoliadau 1989 rhag ffioedd am ofal iechyd a ddarperir o fewn y GIG.

Ni nodwyd unrhyw bwynt i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn er mwyn cyflwyno adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii):

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu newid sylweddol a fydd yn cael yr effaith o eithrio pobl Ynysoedd y Sianel (158,000 o bobl) o ofal am ddim gan y GIG. Arferai fod ganddynt yr hawl i'r gofal hwn pan yn ymweld â Chymru. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw esboniad, nac yn gwneud unrhyw asesiad, o effaith y newidiadau hyn i Gymru. Yn benodol, nid oes asesiad o unrhyw gostau neu arbedion posibl i gyllidebau Llywodraeth Cymru na chyllideb bloc Cymru nac a oes unrhyw newid canlyniadol o ran hawl pobl Cymru i gael gofal iechyd yn Ynysoedd y Sianel.

Dywed y Memorandwm Esboniadol nad oes Asesiad Effaith Rheoliadol (RIA) wedi cael ei baratoi oherwydd bod y ddeddfwriaeth ond yn diwygio deddfwriaeth bresennol. Barn y Pwyllgor yw nad yw hyn yn rheswm digonol dros beidio â pharatoi'r asesiad hwnnw a fyddai, pe bai'n cael ei dderbyn, yn gymwys i'r rhan fwyaf o bob Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud yn dilyn hysbysiad gan Adran Iechyd y DU ar y cytundeb dwyochrog rhwng y DU ac Ynysoedd y Sianel a bydd y diwygiadau i'r rheoliadau yn rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith. Mae'r Pwyllgor yn

derbyn y gall sicrhau cydraddoldeb â rhannau eraill o'r DU, a bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol, ynddynt eu hunain, fod yn rhesymau cadarn dros wneud neu ddiwygio Is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, byddai wedi bod yn ddymunol cael esboniad llawnach o'r angen i Weinidogion Cymru wneud y ddeddfwriaeth hon, yn seiliedig ar y goblygiadau i Gymru.

[Rheol Sefydlog 15.3(ii): materion y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig iddynt gan eu bod yn "codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."]

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

25 Tachwedd 2009